

Ms Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ

25 Hydref 2018

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18.

Annwyl Shan,

Diolch am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddydd Llun 15 Hydref 2018. Mae nifer o faterion yn codi yn sgîl y cyfarfod y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cael rhagor o wybodaeth ac eglurder amdanynt. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

- **Gweithgor ar hybu a hwyluso'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y llywodraeth**

Mae adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at waith parhaus ar weithredu Safonau'r Gymraeg (t.18). Mae'r rhan hon o'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gwaith a fydd yn parhau "yn ystod y cyfnod nesaf ... i hybu a hwyluso'r iaith ymhellach yn fewnol yn y sefydliad".

Cododd y Pwyllgor bryderon yn ystod y sesiwn dystiolaeth, bod [dogfennau](#) a ryddhawyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn dangos bod gweithgor wedi'i sefydlu gan yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol i edrych ar y mater hwn yn ystod haf 2016 a bod y gweithgor wedi llunio adroddiad drafft ym mis Mawrth 2017. Fe wnaethoch gadarnhau wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Hydref nad yw'r papur hwn wedi mynd gerbron Bwrdd Llywodraeth Cymru hyd yma, a bod tri gwaith arall wedi cael eu comisiynu, i edrych ar:



1. Y diffiniad o ddwyieithrwydd,
2. Adolygiad o arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru (o ran sgiliau Cymraeg Cwrteisi neu sgiliau Lefel 1),
3. Adolygiad o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i staff Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddysgu'r iaith.

Nodwyd hefyd fod hyn wedi'i drafod gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

Yn y cyfarfod, pan bwyswyd arnoch am ragor o fanylion ynghylch y tri adolygiad pellach hyn a'r camau nesaf, dywedasoeh:

"What you're talking about is the work that will go beyond what we already have in place. The process for that will be to have a discussion at the board of the Welsh Government. That's what is still to happen. The three reviews that I've commissioned will contribute to that and will go alongside the original report that you've talked about and brought up today."

O ran materion sy'n codi yn sgîl hyn, mae'r Pwyllgor yn gofyn am y canlynol:

- a. Eglurhad ar (i) y rheswm dros gynnal tri darn o waith arall, (ii) natur a chwmpas y gwaith, a (iii) ym mha ffordd y mae'r cylch newydd hwn o adolygiadau yn wahanol i adroddiad cynhwysfawr gweithgor o uwch weision sifil Llywodraeth Cymru sydd eisoes wedi ystyried yn fanwl y cwestiynau y mae'n ymddangos bod y cylch diweddaraf o adolygiadau yn mynd i'r afael â hwy
 - b. Amlinelliad o amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl a gorffen i Fwrdd Llywodraeth Cymru, a diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnydd y gwaith hwn.
 - c. Ar ôl i'r Bwrdd ystyried adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl a gorffen, hoffem weld rhagor o fanylion ar y berthynas weithdrefnol ag arweinyddiaeth wleidyddol / Cabinet Llywodraeth Cymru, gan ystyried bod datblygu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn y gwasanaeth sifil yn rhan allweddol o strategaeth Cymraeg 2050 y Gweinidog.
- **Proffilio Llwyddiant a chymwyseddau**



Mae'r rhagymadrodd i'r adroddiad blynyddol yn nodi bod blaenoriaethau Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn deillio'n gynyddol o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cael eu gweithredu drwy'r fenter Ffyniant i Bawb a'r fenter Diogelu Dyfodol Cymru ac ati. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at weithdrefn hybu fewnol newydd i staff a gyflwynwyd ers mis Gorffennaf eleni ar sail y cefndir hwn (t.20). Mewn [blog](#) ar wefan Gov.uk yn ystod yr haf, amlinellodd Rupert McNeil, Prif Swyddog Pobl y Gwasanaeth Sifil yn Llundain, system newydd o recriwtio a dyrchafu ar gyfer Gwasanaeth Sifil y DU, gan gynnwys diwygiadau i'r fframwaith cymhwysedd a'i ail-adrodd o dan y dull Proffiliau Llwyddiant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#). Mae gwefan recriwtio Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn parhau i gyfeirio ymgeiswyr at Fframwaith Cymhwysedd Gwasanaeth Sifil y DU 2012-2017.

Gwnaethoch siarad â ni'n helaeth am y gwaith a wnaed fel rhan o'r fenter Diogelu ar gyfer y Dyfodol a'r safonau a chymwyseddau, a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ofynnol ar gyfer canolfan asesu newydd ar gyfer "graddfeydd porth". Rydym yn parhau'n aneglur, fodd bynnag, ynghylch pa Fframwaith sydd ar waith, yn wir, ac sy'n cael y flaenoriaeth.

A oes modd i chi ddarparu:

- a. Eglurhad ynghylch a oes gofyniad statudol ar Lywodraeth Cymru i ddilyn y cam ailadrodd diweddaraf o'r fframwaith cymhwysedd a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cabinet y DU ynghylch Proffilio Llwyddiant.
- b. Eglurhad ynghylch a fydd gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu o dan Fframwaith Cymhwyseddau Gwasanaeth Sifil y DU 2012-17, neu a fydd yn gweithredu Proffilio Llwyddiant, neu, a fydd yn ffurfioli ei fframwaith cymhwysedd ei hun fel rhan o'r agenda cenedlaethau'r dyfodol.

- **Cynllun diwygio'r Gwasanaeth Sifil a'i thargedau effeithlonrwydd**

Mae'r unig gyfeiriad yn yr adroddiad blynyddol at arbedion effeithlonrwydd yn ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd y strategaeth lleoliad. Yng nghyfarfod y Pwyllgor, cadarnhaech nad oes gan Lywodraeth Cymru darged arbedion effeithlonrwydd corfforaethol, ar wahân i'r arbedion ystâd ac eiddo, a



chyfeiriasoch at Fwrdd Effeithlonrwydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a chyfres o brosiectau, mae'n ymddangos, syn annibynnol. Soniwyd hefyd am adolygiad o wasanaethau corfforaethol gan Deloitte, yn edrych ar sut mae adnoddau'r gwasanaeth corfforaethol yn cael eu defnyddio ar draws y llywodraeth gyfan, ac mae adroddiad i gael ei gyflwyno ar hyn mewn tua 4–5 wythnos.

A oes modd i chi ddarparu:

- a. Rhagor o eglurder ar y berthynas, neu fel arall, rhwng y gwaith effeithlonrwydd a'r adolygiad o wasanaethau corfforaethol a'r fenter Diogelu ar gyfer y Dyfodol.
- b. I ba raddau mae absenoldeb ymddangosiadol strategaeth llywodraeth gyfan yn ymwneud ag effeithlonrwydd yn gwyro oddi wrth raglen ddiwygio Parod at y Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol.
- c. Copi o'r adroddiad a luniwyd gan Deloitte yn dilyn ei adolygiad o wasanaethau corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Nick Ramsay AC
Cadeirydd

